Canllawiau

1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) wedi cytuno ar y *Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg yng Nghymru* yn sylfaen gyffredin er mwyn deall, datblygu a gwella gwaith ac arweinyddiaeth Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg yng Nghymru.

Mae'r Safonau hyn yn darparu elfen allweddol o'r broses o greu "proffesiynoldeb" maes gwaith a all fod yn anodd ei ddisgrifio. Trwy'r Safonau Cenedlaethol, mae'r sgiliau arbennig, y meysydd gwybodaeth a dealltwriaeth, a'r agweddau sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau cyngor, cymorth a her a gyflawnir gan Weithwyr Proffesiynol Gwella Addysg yn cael eu diffinio, er nad ydynt yn cael eu rhagnodi. Maent yn cynnwys sgiliau gorchwyl a phobl yn ogystal ag ymddygiad.

Mae'r Safonau'n berthnasol i Weithwyr Proffesiynol Gwella Addysg pa un a ydynt yn gweithio mewn gwasanaeth a ddarperir gan Awdurdod Lleol unigol, neu gan gonsortia a grwpiau cydweithredol o Awdurdodau Lleol. Y bwriad yw eu bod yn hyrwyddo arfer mwy cyson o fewn ac ar draws y gwasanaethau. Maent yn cynnig cyfres o "flociau adeiladu" y gellir eu defnyddio'n hyblyg a'u haddasu i amgylchiadau lleol a manwl er mwyn dilysu'r amrywiaeth o nodweddion yn y ffordd y mae Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg yn gweithio ac yn cyflawni eu swyddogaeth. Gellir gwneud y Safonau yn gydnaws â fframweithiau ansawdd eraill sy'n gweithredu fel prosesau mewnol (e.e. gweithdrefnau rheoli perfformiad corfforaethol) a phrosesau allanol y Cyngor (e.e. Buddsoddwyr mewn Pobl). Gall defnyddio'r Safonau ddarparu ffynhonnell bwysig o dystiolaeth y gellir ei bwydo i fframweithiau o'r fath.

Mae'r Safonau'n berthnasol i gynghorwyr, athrawon cynghorol, swyddogion addysg sydd â chyfrifoldeb am wella ysgolion, ymgynghorwyr addysgol, staff cynhwysiant arbenigol, gweithwyr proffesiynol Dysgu'r Blynyddoedd Cynnar, Athrawon Bro h.y. pawb sy'n gweithio fel gweithwyr proffesiynol i hyrwyddo cyflawniad addysgol a lles plant a phobl ifanc. Mae rhai adrannau penodol yn briodol i Benaethiaid sy'n gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr Awdurdodau Lleol.

Y bwriad yw i'r canllaw hwn gael ei ddefnyddio gan Benaethiaid Gwasanaeth, Uwch-reolwyr/Arweinwyr Tîm, a Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg unigol.

D 611 guidance notes (w).indd 1 CertifiedPDF® Welsh Assembly Government ISO-15930 PDF/X-1a:2001 23/3/09 11:48:17

2. Dehongli'r Safonau

Y bwriad yw defnyddio'r Safonau ar dair lefel:

- yr unigolyn
- y tîm
- y gwasanaeth cyfan

Maent yn darparu iaith gyffredin i ddisgrifio a chanmol gwaith Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg o fewn ac ar draws y gwasanaethau, a chyda'u cleientiaid.

Fe'u cyflwynir o fewn tri maes allweddol sy'n cwmpasu gwaith Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg. Mae pob un o'r rhain wedi'i isrannu'n adrannau; ar gyfer pob safon ceir meini prawf enghreifftio sy'n helpu i gadw cysondeb wrth ddehongli.

Mae 'Rheoli eich hunain' yn canolbwyntio ar y nodweddion personol sy'n galluogi'r unigolyn i werthuso ei berfformiad ei hun ac i ddatblygu'n bersonol.

Mae 'Arweiniad Proffesiynol a Rheoli' yn rhoi manylion swyddogaethau arweinwyr addysg ynghyd â'r sgiliau a'r galluoedd penodol i arwain a rheoli sydd eu hangen i sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol.

Mae 'Cefnogi Gwella Addysg a Lles Plant' yn cwmpasu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ac yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i greu'r amgylchedd cywir sy'n hybu cyflawniad a lles plant a phobl ifanc.

Mae'r maes allweddol hwn yn rhoi pwyslais ar wybodaeth a dealltwriaeth o systemau, nodweddion a diwylliannau cenedlaethol, Awdurdodau Lleol a chymunedol. Ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg, beth bynnag fo'r sefyllfa, mae gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cyd-destunau hyn yn hanfodol i'w heffeithiolrwydd.

D 611 guidance notes (w).indd 2 CertifiedPDF® Welsh Assembly Government ISO-15930 PDF/X-1a:2001 23/3/09 11:48:17

3. Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg Unigol

Bydd y Safonau'n codi nifer o gwestiynau gan unigolion:

3.1 Beth mae'r Safonau yn ei olygu?

Gall uwch-reolwyr ddefnyddio'r Safonau'n gyntaf mewn gweithgareddau i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu ar lefel y gwasanaeth cyfan. Bydd y broses hon yn sicrhau bod yr holl Weithwyr Proffesiynol Gwella Addysg yn cynefino â'r Safonau ac yn helpu i sicrhau bod y tîm cyfan yn eu dehongli yn yr un modd. Bydd hefyd yn cefnogi'r broses o nodi pa rai sy'n gyffredin i'r tîm cyfan a pha rai sy'n benodol i'r swydd.

Neu, gellir asesu'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu o fewn y timau neu gan unigolion, ond bydd angen gwneud peth gwaith ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod y Safonau'n cael eu dehongli yn yr un modd a nodi pa rai sy'n ymwneud â swyddi penodol.

Yn ddiweddarach, bydd yr asesiad wedi'i seilio ar ganlyniadau cyfunol y broses rheoli perfformiad, a bydd yn sail i'r cynllun hyfforddi a datblygu.

D 611 guidance notes (w).indd 3 CertifiedPDF® Welsh Assembly Government ISO-15930 PDF/X-1a:2001 23/3/09 11:48:17

3.2 Pa Safonau sy'n berthnasol yn fy swydd i?

Ni chyflwynir y Safonau o ran swyddi penodol mewn Gwasanaeth Gwella Addysg. Bydd rhai Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg yn gweithio ar lefel ysgol/lleoliad cyfan gan ddarparu cymorth a her; bydd rhai yn darparu hyfforddiant a chymorth ar gyfer y cwricwlwm neu arwain a rheoli; mae gwaith rhai eraill yn llai annibynnol a byddant yn gweithio ar draws y ddau faes hyn.

Mae meysydd allweddol 1 a 2, 'Rheoli eich Hunain' ac 'Arweiniad Proffesiynol a Rheoli', yn berthnasol i bob Gweithiwr Proffesiynol Gwella Addysg.

Caiff penderfyniad ar ba mor berthnasol i swyddi penodol y mae'r Safonau ym Maes Allweddol 3, sef 'Cefnogi Gwella Addysg a Lles Plant', ei wneud o fewn pob gwasanaeth wrth iddynt gael eu cyflwyno. Fel y disgrifiwyd uchod, gellir gwneud hyn naill ai fel gweithgaredd i'r gwasanaeth cyfan neu mewn timau. Bydd yn eich helpu i ymgyfarwyddo â'r Safonau, yn helpu i ddatblygu dehongliad cyffredin ohonynt, ac yn helpu i ddatblygu teimlad o berchnogaeth a chysondeb o fewn timau.

3.3 Sut ydw i'n gwybod pa mor dda rwy'n bodloni'r Safonau?

Bydd pob Gweithiwr Proffesiynol Gwella Addysg yn defnyddio'r proffil hunanwerthuso i gyflawni hunanasesiad er mwyn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Bydd yn paratoi'r Gweithiwr Proffesiynol Gwella Addysg ar gyfer cyfarfod adolygu, ac yn fodd i nodi anghenion datblygu proffesiynol.

- Dim ond y Safonau y cytunwyd arnynt gyda'u rheolwr eu bod yn berthnasol i swydd yr unigolyn y dylid eu hasesu.
- Dylid seilio dyfarniadau ar y dystiolaeth sydd ar gael.
- Gellir graddio dyfarniadau mewn ffordd ddefnyddiol. Cynhwysir model graddio pedair lefel yn y proffil hunanwerthuso:

    1. Mae'r arfer yn dda iawn yn gyson, mae'n enghreifftiol yn aml a gellid ei rannu gydag eraill. Mae'r Gweithiwr Proffesiynol Gwella Addysg yn ymroddedig i wella ei berfformiad.
    2. Mae'r arfer yn dda yn gyson. Mae'r Gweithiwr Proffesiynol Gwella Addysg yn ymwybodol o'i anghenion datblygu ac yn gallu mynd i'r afael â hwy.
    3. Mae'r arfer yn dda ar y cyfan. Mae'r Gweithiwr Proffesiynol Gwella Addysg yn fodlon gwella ei berfformiad ac yn cydnabod bod angen peth cymorth arno.
    4. Mae'r arfer yn dda mewn nifer gyfyngedig o feysydd yn unig. Mae angen cymorth ac anogaeth reolaidd ar y Gweithiwr Proffesiynol Gwella Addysg.

Pan nad yw'r safon yn berthnasol i swydd benodol y Gweithiwr Proffesiynol Gwella Addysg, dylid nodi Amherthnasol ar ei chyfer.

D 611 guidance notes (w).indd 4 CertifiedPDF® Welsh Assembly Government ISO-15930 PDF/X-1a:2001 23/3/09 11:48:17

Dylid rhoi graddau yn seiliedig ar ddyfarniad proffesiynol gan ystyried y dystiolaeth sydd ar gael. Caiff y graddau eu meincnodi yn y cyfarfod adolygu â'r rheolwr llinell/arweinydd tîm. Os cynhwysir adolygiadau gan gymheiriaid/rhanddeiliaid yn y broses adolygu, gall y canlyniadau fod yn gyfraniad ychwanegol at feincnodi'r dyfarniadau.

3.4 Pa dystiolaeth sydd ei hangen arna i?

Rhoddir ffynonellau posibl o dystiolaeth yn y cyflwyniad (t.7). Mae'r proffil hunanwerthuso'n gofyn i unigolion nodi'r ffynonellau tystiolaeth ar gyfer pob un o'u dyfarniadau.

Mae'n rhaid pwysleisio mai tystiolaeth yw hon sydd fel arfer yn cael ei chasglu yn ystod gweithgareddau gwaith. Dylid cyfeirio at y dystiolaeth yn hytrach na'i dyblygu; dylai Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg allu darparu cyfeiriad ar gyfer unrhyw dystiolaeth sy'n ategu eu dyfarniad ar gyfer pob un o'r Safonau (gweler y proffil hunanwerthuso).

Caiff gwasanaethau unigol ddewis datblygu portffolios proffesiynol unigol. Fel arfer, byddai portffolio o'r fath yn cynnwys y swydd-ddisgrifiad, y proffil hunanwerthuso, y canlyniadau rheoli perfformiad a chofnodion o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus. Yn gyffredinol, byddai proffil o'r fath yn darparu cofnod o nodau, twf a chyflawniad proffesiynol a gallai fod yn sylfaen ar gyfer datblygiad proffesiynol sy'n para trwy gydol yr yrfa ac sy'n cael ei gyfeirio gan yr unigolyn.

4. Y Gwasanaeth Cyfan

Mae cyflwyniad cychwynnol i'r Safonau ar lefel y gwasanaeth cyfan yn galluogi pob Gweithiwr Proffesiynol Gwella Addysg i:

- gael dealltwriaeth gyffredin o'r Safonau
- gwybod pa rai sy'n berthnasol i'w swydd
- gwybod sut i asesu ei berfformiad ei hun
- deall sut y mae'r Safonau'n cael eu defnyddio yn y broses rheoli perfformiad
- gwybod sut y disgwylir iddo ddarparu tystiolaeth o'i berfformiad
- gwybod sut y bydd ei anghenion datblygu proffesiynol yn cael eu bodloni

5. Timau

Bydd Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg yn gweithio mewn timau a reolir gan uwch-reolwr/arweinydd tîm. Mae'n hanfodol bod gan y tîm ddealltwriaeth gyffredin o'r Safonau ac sy'n berthnasol i'w swydd. Bydd hyn yn helpu i gyflawni cysondeb ar draws y tîm ac yn cefnogi adolygiadau gan gymheiriaid fel rhan o'r broses rheoli perfformiad.

D 611 guidance notes (w).indd 5 CertifiedPDF® Welsh Assembly Government ISO-15930 PDF/X-1a:2001 23/3/09 11:48:17

6. Rheoli Perfformiad

Mae'r broses o reoli perfformiad yn effeithiol yn hanfodol bwysig i ddatblygiad unigolion a gwasanaethau. Mae'r Safonau'n cynnig cyfleoedd i Weithwyr Proffesiynol Gwella Addysg a'u rheolwyr wneud y canlynol trwy'r broses rheoli perfformiad:

- gosod a bodloni targedau clir i gyflawni nodau'r gwasanaeth
- helpu i wella dysgu, cyflawniad a lles plant a phobl ifanc mewn ysgolion a lleoliadau eraill

Felly, mae'n hanfodol bod y Safonau'n cael eu defnyddio fel rhan annatod o'r gweithdrefnau rheoli perfformiad o fewn y gwasanaeth. Efallai bod gwasanaethau neu Awdurdodau Lleol unigol yn gweithredu modelau rheoli perfformiad gwahanol. Fodd bynnag, mae'r Safonau'n ddigon hyblyg i ganiatáu iddynt gael eu cynnwys mewn ystod o fodelau; maent yn gymwyseddau sy'n benodol i swyddi ac felly byddant yn gwneud y systemau rheoli perfformiad yn fwy manwl lle y mae'r meini prawf hunanwerthuso'n fwy cyffredinol eu natur.

Y bwriad yw defnyddio'r Safonau ar gyfer hunanwerthuso ac asesu gan y rheolwr llinell/arweinydd tîm wrth nodi cryfderau, meysydd i'w datblygu ac anghenion datblygu proffesiynol. Gellir gwella'r broses ymhellach trwy gyflwyno dull 360 gradd sy'n cynnwys cymheiriaid o fewn y tîm a'r gwasanaeth, cydweithwyr o feysydd gwasanaeth eraill a chleientiaid mewn ysgolion.

7. Datblygiad Proffesiynol

Mae strategaeth datblygu proffesiynol yn hanfodol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff, eu paratoi ar gyfer newid swyddi neu ddyrchafiad o fewn y sector "gwella addysg", neu i'w helpu i ddilyn gyrfaoedd eraill o'u dewis.

Trwy ddefnyddio'r Safonau bydd yn bosibl sefydlu strategaeth datblygu proffesiynol ar gyfer y gwasanaeth cyfan, timau ac unigolion, a bydd yn sicrhau bod y strategaeth yn cael ei seilio ar ddadansoddiad manwl o sgiliau/anghenion sy'n deillio o hunanasesu a rheoli perfformiad ar ôl ystyried.

Bydd eu defnyddio ar gyfer unigolion a thimau yn galluogi arweinwyr i gydnabod a dathlu cryfderau o fewn y gwasanaeth, y gellir eu defnyddio i ddatblygu eraill o fewn y tîm trwy hyfforddi, mentora a chysgodi neu arwain sesiynau datblygu proffesiynol.

D 611 guidance notes (w).indd 6 CertifiedPDF® Welsh Assembly Government ISO-15930 PDF/X-1a:2001 23/3/09 11:48:17

8. Sefydlu

Dylai deall y Safonau fod yn elfen o'r prosesau sefydlu

Mae'r Safonau'n cydnabod yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth y mae Gweithiwr Proffesiynol Gwella Addysg sydd newydd ei benodi yn dod â hwy i'r swydd, ac yn sicrhau y gellir nodi anghenion hyfforddi cychwynnol, gan ddarparu canolbwynt ar gyfer gweithgaredd yn rhaglen sefydlu'r gweithle.

9. Prosesau cynllunio datblygu gyrfa, olyniaeth a recriwtio

Mae'r Safonau'n bodloni anghenion Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg sydd newydd eu penodi, sydd wedi'u hen sefydlu ac sy'n brofiadol a'r rhai hynny sy'n arwain ac yn rheoli datblygiad eraill.

Mae defnyddio'r Safonau'n llym yn darparu llwybr symud ymlaen ar eu cyfer ac yn helpu i ddatblygu arweinwyr 'gwasanaethau gwella addysg' o ansawdd uchel ar gyfer y dyfodol.

Mae defnyddio'r Safonau mewn swydd-ddisgrifiadau a manylebau person yn ychwanegu manylder at y broses recriwtio. Mae'n sicrhau ffocws ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth briodol ar gyfer y swydd ac yn darparu eglurder o ran rôl, safonau a ddisgwylir a chanlyniadau i ymgeiswyr.

Mae'r broses rheoli perfformiad hefyd wedi'i gwella gan gysondeb y defnydd o iaith broffesiynol y Safonau mewn swydd-ddisgrifiadau, manylebau person a phroffiliau hunanwerthuso.

D 611 guidance notes (w).indd 7 CertifiedPDF® Welsh Assembly Government ISO-15930 PDF/X-1a:2001 23/3/09 11:48:17

D 611 guidance notes (w).indd 8 CertifiedPDF® Welsh Assembly Government ISO-15930 PDF/X-1a:2001 23/3/09 11:48:18

Gweithredu Prosesau, Swyddogaethau a Chyfrifoldebau'r Safonau Cenedlaethol

Pennaeth y Gwasanaeth	Uwch-reolwyr/ Arweinwyr Tîm	Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg
Strategaeth weithredu		
Sut y caiff y safonau eu cyflwyno a'u defnyddio.	Cynllunio a gweithredu gweithgareddau i gyflwyno'r safonau.	Cymryd rhan yn y gweithgareddau a gynlluniwyd i gyflwyno'r safonau a sicrhau bod y Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg yn ymgyfarwyddo â hwy.
Sicrhau bod amser ar gael i aelodau'r staff gymryd rhan.	Cytuno ar ba safonau sy'n berthnasol i ba swyddi yn y gwasanaeth a darparu proffil hunanwerthuso unigol neu dîm i'r Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg.	
Rheoli perfformiad		
Adolygu systemau gwasanaeth i gynnwys defnyddio'r safonau.	Gweithredu'r Polisi Rheoli Perfformiad diwygiedig. Cytuno ar gryfderau a meysydd unigol i'w datblygu. Casglu a dadansoddi canlyniadau adolygiadau Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg unigol. Nodi anghenion Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer unigolion, timau a'r gwasanaeth cyfan. Nodi cryfderau cydweithwyr y gellir eu defnyddio i gefnogi/ datblygu eraill.	Cyflawni hunanwerthusiad gan ddefnyddio'r proffil hunanwerthuso. Nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Nodi anghenion Datblygiad Proffesiynol Parhaus a thrafod y rhain â'r rheolwr llinell/ arweinydd tîm.

D 611 guidance notes (w).indd 9 CertifiedPDF® Welsh Assembly Government ISO-15930 PDF/X-1a:2001 23/3/09 11:48:18

Pennaeth y Gwasanaeth	Uwch-reolwyr/ Arweinwyr Tîm	Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg
Strategaeth hyfforddi a datblygu		
Goruchwylio'r broses o ddatblygu'r fframwaith datblygu proffesiynol.	Datblygu a gweithredu'r cynllun hyfforddi a datblygu.	Cymryd rhan yn y sesiynau hyfforddi a datblygu. Defnyddio'r cryfderau a nodwyd i gyfrannu at y rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Cynnal cofnod o hyfforddiant a datblygiad.
Sefydlu		
Adolygu'r polisi sefydlu i gynnwys defnyddio'r safonau	Datblygu a gweithredu'r polisi sefydlu diwygiedig.	
Recriwtio a chadw		
Adolygu'r strategaeth recriwtio a chadw i gynnwys y safonau.	Gweithredu'r polisi recriwtio a chadw diwygiedig.	

D 611 guidance notes (w).indd 10 CertifiedPDF® Welsh Assembly Government ISO-15930 PDF/X-1a:2001 23/3/09 11:48:18